

Cyfarfod Fforwm Hil Cymru
27 Medi 2017 am 12.00pm – 13 pm
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol:**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**

Samsunear Ali	BAWSO
Isaac Blake	Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani
Rocio Cifuentes	Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
Aled Edwards	Cynrychiolydd y Fforwm Cymunedau Ffydd
Kristina Hedges	Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (ar ran Sunil Patel)
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Uzo Iwobi	Race Council Cymru
Maria Mesa	Women Connect First
Tracy Sherlock	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Shahien Taj	Sefydliad Henna
Shereen Eilliams	Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol, Rhanbarthol Dwyrain Gwent

Swyddogion Llywodraeth Cymru yn Bresennol:

Paul Dear	Tîm Cydraddoldeb
Emma Small	Tîm Cydraddoldeb
Francesca Jeremy	Tîm Cydraddoldeb

Ymddiheuriadau:

Mandy Burrows	Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Gogledd Dwyrain Cymru
Melineh Essavy	Hope2Shine
David Phillips	Grŵp Cydraddoldeb Cymru

Cyflwyniadau:

Uzo Iwobi	Race Council Cymru
-----------	--------------------

Croeso a Chyflwyniadau

Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at y llythyr a anfonodd at gydweithwyr cyn y cyfarfod hwn i atgoffa aelodau o bwrpas y Fforwm a'r safon ymddygiad a ddisgwylir gan bob aelod pan ydynt yn ymgymryd â'i orchwylion.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r papur camau gweithredu eu nodi a'u cytuno.

Eitem 1: Adborth ar gyfarfodydd 1:1 gydag aelodau, Paul Dear, Pennaeth Cydraddoldeb

Ym mis Gorffennaf anfonodd yr Ysgrifenyddiaeth wahoddiad at bob aelod o'r Fforwm i gyfarfod gyda Llywodraeth Cymru. Mae Paul wedi cael sawl cyfarfod gydag aelodau ers hynny, a diolchodd iddynt am natur gwrtais a pharchus y cyfarfodydd hynny.

Dywedodd fod effaith y Prosiect Cymru Gyfan i Ymgysylltu â Phobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a gyflawnir gan EYST ac a ariennir â grant gan Lywodraeth Cymru, yn bwnc cyffredin a godwyd ym mhob cyfarfod. Ceir pryder parhaus ynghylch gweithredu'r prosiect yn ymarferol a'r effaith y gallai ei chael ar sefydliadau eraill sy'n cynrychioli Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn yr un ardaloedd.

Pwysleisiodd Paul nad oedd y prosiect wedi'i fwriadu i ddyblygu, disodli, na thanseilio gwaith unrhyw sefydliad arall yng Nghymru sy'n cynrychioli Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Yn hytrach, roedd wedi'i fwriadu i ategu a chefnogi gweithgareddau sefydliadau eraill, i lenwi bylchau a helpu i gryfhau'r sector. Ymrwymodd i barhau i weithio ar y cyd ag EYST a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac aelodau'r Fforwm er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw ddyblygu posibl a chytuno ar ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar arbenigedd sefydledig a ffocws daearyddol pob sefydliad.

Wrth ystyried y dyfodol, dywedodd pe bai sefydliadau ledled Cymru sy'n cynrychioli Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gallu canfod ffyrdd newydd o gydweithio sy'n gwasanaethu Cymru gyfan fel sy'n angenrheidiol, y byddai hynny'n dwyn perswâd o ran modd y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sefydliadau sy'n cynrychioli Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y tu hwnt i'r prosiect 2017-20 cyfredol. Gwahoddodd sefydliadau sy'n cynrychioli Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gydweithio i helpu i "gynllunio'r dyfodol". Dywedodd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn fodlon ymuno yn y trafodaethau pe bai cysylltiad o'r fath o fudd, ond dywedodd hefyd y dylai'r datrysiad, yn ddelfrydol, ddod o du'r sector ei hun.

Gwnaeth aelodau sylwadau a oedd yn nodi y byddai mwy o ymgynghori ar raglen ariannu 2017-20 wedi bod o gymorth. Roedd Paul yn cytuno ei bod yn bwysig symud ymlaen gyda deialog wirioneddol.

Cam Gweithredu: Swyddogion i sicrhau bod Ysgrifennydd y Cabinet yn gyson ymwybodol o ddatblygiadau cyfarfodydd 1:1 gydag aelodau a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Eitem 2: Eitem sefydlog – Diweddariad ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Uzo Iwobi, Prif Weithredwr Race Council Cymru

Eglurodd Uzo fod Race Council Cymru a Race Equality First yn cydweithio i gynrychioli materion hil ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (ochr yn ochr â

thuag 20 o gyrff cynrychiadol eraill). Un mater allweddol ar hyn o bryd yw hiliaeth mewn ysgolion, yn enwedig tuag at ymfudwyr o Ewrop, a merched Mwslimaidd yn gwisgo hijabs. Mae RCC wedi paratoi papur ar hyn i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gan ofyn i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ei ddefnyddio pan fo'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gweithlu Addysg ac Ysgolion Arloesi newydd. Mae RCC yn teimlo'n arbennig y dylai'r cwricwlwm newydd gynnwys meysydd dysgu sy'n benodol yn helpu i fynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion.

Roedd sylwadau aelodau'r Fforwm yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd Daniel Hurford y dylai RCC gysylltu'n uniongyrchol â CLILC
- Awgrymodd Aled Edwards fod angen inni gychwyn trafodaeth genedlaethol am addysg ddinesig – sut i drwytho plant mewn dealltwriaeth well am hanes diweddar sy'n cynnwys hanes Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Hysbysodd Isaac Blake y Fforwm ei fod yn credu bod hiliaeth gwrth-sipsiwn ar led yng Ngogledd Cymru. Rhybuddiodd hefyd nad oedd unman i sipsiwn oedd yn profi hiliaeth gan staff Awdurdod Lleol fynd â'u cwyn, gan y byddai cwyn o'u heiddo yn cael ei chyfeirio'n ôl at yr un staff yn yr Awdurdod Lleol.
- Nododd Kristina Hedges fod problem pan na fydd digwyddiadau hiliol mewn ysgolion yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Awdurdod Lleol.
- Dywedodd Uzo fod heriau anferthol yn wynebu pobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, a'u bod hwy bellach yn cynnal canolfan galw heibio yn Wrecsam ar gyfer plant ysgol ac oedolion. Roedd sawl aelod yn cytuno gyda'r sylwadau bod ymddygiad hiliol tramgwyddus yn gwaethygu, ac yn digwydd yn gynyddol ar-lein, ac yn dod yn fwy cyfrwys (heb fod yn droseddol) yn hytrach nag yn agored elyniaethus.
- Dywedodd Tracey fod y cynnydd mewn rhethreg negyddol yn cael ei ysgogi weithiau gan bolisiau'r DU ar fewnfudo a 'thwristiaeth iechyd' / trefniadau codi ffioedd y GIG, y gellid ystyried eu bod yn 'cyfreithloni hiliaeth', a bod angen i Gymru ymateb yn rymus i Lywodraeth y DU.
- Dywedodd Rocio Cifuentes fod dyletswyddau statudol ar gyrff cyhoeddus dan y Ddeddf Cydraddoldeb i hybu cysylltiadau da, a'i bod yn rheidrwydd arnynt i wneud mwy. Dywedodd Aled fod y sefyllfa mor ddwys erbyn hyn fel bod y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, er enghraifft, yn cael ei sarhau am ariannu prosiect ar gyfer ceiswyr lloches. Er mwyn gweithredu yn erbyn hyn, rhaid cychwyn trafodaeth sy'n gosod y llinellau na ddylid eu croesi, gan gynnwys iaith dramgwyddus nad yw o reidrwydd yn drosedd, h.y. ble y mae angen herio ymddygiad annerbyniol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn rhannu pryderon aelodau'r Fforwm am y newidiadau diweddar mewn lefelau hiliaeth, a'r newid sydyn yn ôl pob golwg yn yr hyn a ystyrir yn dderbyniol mewn cymdeithas. Roedd hefyd yn rhannu rhwystredigaeth yr aelodau am nad oedd y dyletswyddau statudol dan y Ddeddf Cydraddoldeb wedi arwain at y newid diwylliannol y mae ei angen. Gofynnodd i aelodau'r Fforwm gydweithio i gynnig cyngor manwl iddo ynghylch yr hyn yr oedd ei angen i sicrhau'r newid diwylliannol angenrheidiol - nid dim ond trwy weithio gyda phlant – ond mewn ffordd a fyddai'n newid diwylliant oedolion a rhieni. Roedd yn

cydnabod y gallai hyn olygu llwybr gwaith mewn addysg, ond dywedodd yr hoffai weld cynigion y Fforwm am ystod ehangach o weithgareddau. Byddai wedyn yn defnyddio'r cynigion hynny i geisio syniadau cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Cam Gweithredu: Uzo Iwobi i rannu papur Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar Hiliaeth mewn Ysgolion gydag aelodau'r Fforwm, Isaac Blake i rannu adroddiad ar addysg ac iechyd yng nghyswllt Sipsiwn a Theithwyr. Aelodau eraill i gysylltu â'r Ysgrifenyddiaeth os oes adroddiadau diweddar perthnasol eraill i'w cylchredeg.

Cam Gweithredu: Daniel Hurford i gysylltu ag Uzo Iwobi i drafod papur RCC.

Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i hwyluso gwaith rhwng aelodau'r Fforwm i ddatblygu cynigion i Ysgrifennydd y Cabinet gyda golwg ar danio newid diwylliannol yn nerbynioldeb hiliaeth, gan gynnwys

- Y sefyllfa bresennol
- Pam nad yw'r safbwynt presennol yn gweithio
- Yr hyn y mae angen inni ei wneud nesaf
- Rolau gwahanol asiantaethau, gan gynnwys, er enghraifft, y BBC

Eitem 3: Mis Hanes Pobl Dduon Uzo Iwobi, Prif Weithredwr Race Council Cymru

Atgoffodd Uzo'r aelodau fod Mis Hanes Pobl Dduon yn dechrau yr wythnos nesaf. Eleni yw 10fed pen-blwydd y dathliadau yng Nghymru i gydnabod cyfraniad pobl dduon i ddiwylliant, hanes, a chymdeithas yng Nghymru. Rheolir Mis Hanes Pobl Dduon gan Race Council Cymru, sy'n cadeirio pwyllgor llywio.

Mae 107 o sefydliadau'n aelodau o rwydwaith Mis Hanes Pobl Dduon. Eleni bydd cyfres o weithgareddau dathliadol ac addysgol, a Gwobrau Ieuencid.

Cofnododd Maria ei diolch i'r holl bobl fu'n gweithio i sefydlu Mis Hanes Pobl Dduon yng Nghymru, a hefyd i Gyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi trefnu llawer o ddigwyddiadau mewnol i nodi'r mis, gyda ffocws ar wella'r trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac ymwybyddiaeth o faterion Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gweithle. Gwahoddodd Uzo gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i ymuno â'r pwyllgor llywio ar gyfer y flwyddyn nesaf, er mwyn cydlyn digwyddiadau.

Cam Gweithredu: Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru [Emma Small] i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Llywio Mis Hanes Pobl Dduon yn y dyfodol.

Eitem 4: Cydlyniant Cymunedol Emma Small, Rheolwr Cydlyniant Cymunedol

Cyflwynodd Emma'r eitem trwy egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur cydlyniant cymunedol, gan ddefnyddio mesurau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ymdeimlad pobl o berthyn, a hefyd gan ddefnyddio data ynghylch troseddau casineb.

Mae gwaith Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid yn canolbwyntio ar waith ataliol, hirdymor i feithrin goddefgarwch a chysylltiadau da, i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wedi gwreiddio'n ddwfn, ac i gefnogi pobl i ddadelfennu unrhyw deimladau o ofn a drwgdybiaeth. Mae'r agwedd hon yn cydnabod bod y gwaith hwn yn 'nes at wraidd y broblem' yn hanfodol i ddatblygu cydnerthedd fel bod cymunedau'n gallu gweithio i atal a rheoli problemau 'maes o law' megis tensiynau cymunedol, gwahaniaethu, troseddau casineb a bod yn agored i radicaleiddio.

Bydd llawer o feysydd gwaith eraill dan y strategaeth Ffyniant i Bawb yn cyfrannu at gydlyniant trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, er enghraifft trwy roi cymorth i bobl gael swyddi, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, cynorthwyo'r holl bobl ifanc i gyflawni eu potensial, ac adeiladu cymunedau cydnerth. Mae'r meysydd sy'n cael blaenoriaeth yn y strategaeth Ffyniant i Bawb hefyd yn berthnasol iawn i gydlyniant gan fod anghysonderau rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas, gan gynnwys grwpiau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, iechyd meddwl, tai, y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, sgiliau a chyflogadwyedd.

Ceir ymrwymiad penodol yn y strategaeth Ffyniant i Bawb hefyd i weithio gyda chymunedau, y sector gwirfoddol a gwasanaethau lleol i wrthsefyll bygythiad eithafiaeth a throseddau casineb mewn cymunedau. Mae'r partneriaid ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru (megis cymunedol, addysg, chwaraeon, tai), ac Awdurdodau Lleol / Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol; pedwar o heddluoedd Cymru, asiantaethau cyfiawnder troseddol, a sefydliadau Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Mae rhai o feysydd allweddol ein gwaith yn ymwneud â chynorthwyo cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau statudol dan y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; cynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol mewn bywyd cyhoeddus a rolau arwain; cyfathrebiadau i frwydro yn erbyn rhethreg negyddol; cymorth gyda chydlyniant i grwpiau penodol (gan gynnwys Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, ymfudwyr, cymunedau Sipsiwn neu Deithwyr); monitro tensiwn mewn cymunedau; bwlio sy'n gysylltiedig â chasineb; rhoi cymorth i ddioddefwyr a chynyddu'r arfer o hysbysu am ddigwyddiadau; lleihau perygl radicaleiddio a gweithio gyda thramgwyddwyr.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, er ein bod wedi ystyried cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol ar gyfer 2017-20, ei fod yn teimlo na ddylid cyhoeddi fersiwn newydd ar hun o bryd. Mae'r agenda cydlyniant cymunedol yn symud yn gyflym ac yn newid yn barhaus a byddai'n fwy effeithiol adolygu ein dull gweithredu a'n blaenoriaethau'n barhaus. Dywedodd ei fod yn croesawu syniadau aelodau'r Fforwm am yr hyn y mae angen ei wneud, ac y gallai'r syniadau hynny ddod i'r amlwg trwy'r wybodaeth y mae wedi gofyn amdani dan Eitem 2.

Unrhyw Fater Arall

Dywedodd Aled Edwards iddo fod yn bresennol yn ddiweddar mewn digwyddiad ar Ddiffyg Dinasyddiaeth ym Merlin. Eglurodd Aled fod dinasyddiaeth yn cael ei chaniatáu trwy linach tadau mewn rhai gwledydd. Gallai plant mamau a dreisiwyd, er enghraifft, ac sydd heb dad cofrestredig, gael eu gadael heb ddinasyddiaeth. Gofynnodd am i ni drafod hyn yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n ysgrifennu at Lywodraeth y DU i holi am ei safbwynt cyfredol ar y mater hwn ac y byddai'n cyflwyno adborth yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Isaac Blake iddo fod yn bresennol mewn digwyddiad ym Mrwsel ar adolygiad o'r Strategaeth Integreiddio Roma. Bydd Isaac yn cyfrannu.

Rhoddodd Rocio ddyddiad ar gyfer dyddiaduron yr aelodau, sef 20 Mawrth pan gynhelir cynhadledd ar faterion hil dan nawdd Ysgrifennydd y Cabinet yn adeilad y Pierhead. Gofynnodd Uzo ai digwyddiad gan y Fforwm Hil ynteu EYST oedd hwn.

Cam Gweithredu: Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i holi am eu safbwynt cyfredol ar ddiffyg dinasyddiaeth. Yr Ysgrifenyddiaeth i roi diffyg dinasyddiaeth ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfodydd gydag Uzo a Rocio i drafod cynlluniau a dull gweithredu ar gyfer y gynhadledd hil ar 20 Mawrth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf unwaith y bydd aelodau'r Fforwm wedi paratoi gwybodaeth i Ysgrifennydd y Cabinet. Bydd Yr Ysgrifenyddiaeth yn e-bostio dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf at yr aelodau maes o law.